



**Croeso i seithfed cylchlythyr Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLI).**

## Y Diweddaraf am y CDLI


### Rhoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar 'Adnau' i ymgynghori arno

**Mae'r cynllun yn rhoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar 'Adnau' i ymgynghori arno.**

Mae'r CDLI Adnau'n cynnwys cynllun y cyngor i gyfarwyddo'r hyn y gellir ei adeiladu ac ym mhle dros y cyfnod hyd at 2025. Mae'r cynllun, a lywir gan y gwaith ymgynghori, cydweithio ac ymchwil sylweddol a wnaed hyd yn hyn, yn ceisio annog datblygu o safon wrth gydbwyso'r angen i ddiogelu a chadw'r gorau o harddwch naturiol a threftadaeth adeiledig y cyngor.

Mae'r Cynllun Adnau'n cynnwys y canlynol:

- Strategaeth sy'n cynnwys gweledigaeth drosgynnol, amcanion a pholisïau allweddol
- Polisïau fesul ardal ar gyfer datblygu
- Dyraniadau tir sylweddol, gan gynnwys tai a chyflogaeth
- Polisïau a chynigion i ddiogelu ardaloedd amgylcheddol sensitif, a
- Map Cynigion



## Yr Ymgynghoriad

Bydd y cyfnod ymgynghori'n para am chwe wythnos, gan ddechrau

**Dydd Llun, 27 Mehefin, 2016 a dod i ben am 4:30 pm ar Dydd Gwener, 12 Awst, 2016.**

**Nid ystyrir sylwadau a dderbynnir ar ôl y cyfnod hwn.**

Gellir cyflwyno sylwadau am unrhyw agwedd ar y Cynllun Adnau, boed hynny i gefnogi'r cynllun neu i'w wrthwynebu. Os byddwch yn gwrthwynebu'r cynllun, bydd angen i chi esbonio pam y dylid ei newid; os yw'n bosib, dylech ddarparu rhesymau dros eich gwrthwynebiadau a thystiolaeth ategol. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gellir awgrymu safleoedd eraill ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Gall y rhain gynnwys safleoedd a wrthodwyd gynt gan y cyngor gan nad oeddent yn addas i'w cynnwys yn y Cynllun Adnau. Efallai y byddwch hefyd am ofyn am ddiwygio safleoedd a gynnigir i'w dyrannu neu gael gwared arnynt o'r cynllun, neu newid ffiniau setliadau datblygu. Fodd bynnag, bydd angen i'r newidiadau y byddwch yn eu cynnig ac unrhyw safleoedd datblygu newydd gydweddu â Strategaeth a Ffefrir y cynllun ac Arfarniad Cynaladwyedd.

Cyflwynir y sylwadau a dderbynnir yn ystod cyfnod ymgynghori'r Cynllun Adnau'n unig i arolygydd annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn archwilio'r CDLI ac yn ystyried y diwygiadau y dylid eu gwneud. Sylwer na fydd yr arolygydd yn ystyried sylwadau a gyflwynwyd yn ystod camau ymgynghori blaenorol.

**Cysylltwch â ni:**

[cdll@abertawe.gov.uk](mailto:cdll@abertawe.gov.uk) (01792) 635081 [www.abertawe.gov.uk/cdll](http://www.abertawe.gov.uk/cdll)

## Ble gallaf weld y cynllun?

Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiedig ar gael ar wefan y cyngor ac mae copïau caled o'r dogfennau hefyd ar gael yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe a phob llyfrgell yn Ninas a Sir Abertawe.

## Sut gallaf gyflwyno sylwadau?

Drwy gofrestru ar ein gwefan sylwadau ar-lein ryngweithiol yn [www.abertawe.gov.uk/ldpdeposit](http://www.abertawe.gov.uk/ldpdeposit)

Gellir hefyd gyflwyno sylwadau yn unrhyw un o lyfrgelloedd y cyngor.

Fel arall, mae 'Ffurflen Sylwadau'r Cynllun Adnau' ar gael ar gais neu drwy ei lawrlwytho o wefan y cyngor. Gellir ei dychwelyd drwy e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Darllenwch y "Nodiadau Arweiniol" a ddarperir ar y ffurflen a'r wefan, a hynny'n ofalus, er mwyn cael gwybod sut i gyflwyno eich sylwadau.

## Beth yw'r Cam Nesaf?

Ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau, adroddir yn ôl am y cynllun i'r cyngor, a fydd yn ystyried adroddiad am y materion a godir gan yr ymgynghoriad ac yn cytuno ar unrhyw newidiadau, a adwaenir fel "newidiadau penodol", y gall fod eu hangen o'r herwydd. Bydd yn rhaid cyhoeddi'r holl newidiadau penodol y cytunir arnynt ar gyfer sylwadau eraill; ar ôl hynny, bydd y cyngor yn rhoi'r cynllun a'i holl ddogfennau atodol i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w 'harchwilio' gan arolygydd annibynnol.

Bydd yr arolygydd annibynnol yn ystyried y cynllun a gyflwynir a sut mae'n perfformio yn erbyn deg 'prawf cadernid'. Gellir canfod y rhain ar ein gwefan ymgynghori neu ar y ffurflen sylwadau.

Er mwyn gwneud hyn, bydd yr arolygydd yn cynnal archwiliad i ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yr holl sylwadau a gyflwynwyd (ceir crynodeb o'r rhain mewn 'Adroddiad Ymgynghori') ac amgylchiadau penodol ardal y Cynllun Datblygu Lleol.

Cyn i'r archwiliad ddechrau, bydd yr arolygydd annibynnol yn cynnal cyfarfod i nodi'r materion i'w trafod a fformat yr archwiliad, a gall hefyd gynnal cyfarfodydd dilynol i bennu rhaglenni ac agendâu.

Gall yr arolygydd wahodd y rhai sydd wedi cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Adnau i gymryd rhan yn yr archwiliad drwy siarad mewn gwrandawriad neu gyflwyno mwy o dystiolaeth ysgrifenedig. Mae ffurflen yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau'n cynnig y cyfle i chi ddatgan a hoffech ymddangos yn bersonol yn yr archwiliad, neu a hoffech ddweud eich dweud yn ysgrifenedig. Gallwch hefyd ddod a gwrandao ar yr archwiliad, hyd yn oed os nad ydych yn cymryd rhan ynddo neu os nad ydych wedi cyflwyno sylwadau.

Ar ôl yr archwiliad, bydd yr arolygydd yn llunio adroddiad a fydd yn 'rhwymol' i'r cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r cyngor dderbyn y newidiadau a fynir gan yr arolygydd a mabwysiadu'r CDLI fel y'i diwygir.

## Mwy o wybodaeth

Gallwch gael mwy o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y gwaith o baratoi'r CDLI drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod neu drwy fynd i'n gwefan.

Mae arweiniad manwl ar y broses hefyd ar gael yn <http://gov.wales/topics/planning/policy/?lang=cy>

## Cysylltwch â ni:

Tîm Cynllunio Strategol, Gwasanaethau Cynllunio,

Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN.

E-bost [ldp@swansea.gov.uk](mailto:ldp@swansea.gov.uk) 01792 635081 [www.abertawe.gov.uk/ldp](http://www.abertawe.gov.uk/ldp)



## Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Adnau

Bydd swyddogion o Dîm Cynllunio Strategol y cyngor ar gael i drafod yr ymgynghoriad ar y CDLI Adnau

Dyddiad	Amser	Lleoliad
Dydd Mercher, 29 Mehefin 2016	9:30am-1pm	Canolfan Siopa'r Cwadrant
Nos Wener, 1 Gorffennaf 2016	4pm-7pm	Neuadd Pentref Felindre, Felindre
Nos Lun, 4 Gorffennaf 2016	4pm-7pm	Ysgol Gynradd Penllergaer, Penllergaer
Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf, 2016	10am-1pm	Sefydliad Pontarddulais, Pontarddulais
Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2016	10am-1pm	Neuadd Pentref Newton, Newton
Nos Iau, 7 Gorffennaf 2016	4pm-7pm	YGG Pontybrenin, Heol Casllwchwr, Gorseinon
Dydd Gwener, 8 Gorffennaf 2016	2pm-5pm	Canolfan Gymunedol Parc Montana, Glandŵr
Dydd Llun, 11 Gorffennaf	2pm-5pm	Neuadd Plwyf Pennard, Pennard
Nos Fawrth, 12 Gorffennaf, 2016	4pm-7pm	Canolfan Adnoddau Bro Abertawe
Nos Fercher, 13 Gorffennaf 2016	4pm-7pm	Canolfan Gymunedol y Cocyd, y Cocyd
Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2016	1pm-4pm	Canolfan Gymunedol Port Tennant, Port Tennant
Dydd Gwener, 15 Gorffennaf 2016	2pm-5pm	Canolfan Gymunedol y Clâs, y Clâs
Dydd Mawrth, 19 Gorffennaf 2016	3pm-6pm	Neuadd Pentref Pontlliw, Pontlliw